

TUDUR PENLLYN (c. 1420 - c. 1485-90), bardd

Enw: Tudur Penllyn
Dyddiad geni: c. 1420
Dyddiad marw: c. 1485-90
Priod: Gwerful ferch Ieuan Fychan ab Ieuan
Plentyn: Ieuan ap Tudur Penllyn
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth
Awdur: John Ellis Caerwyn Williams

Am ei ach, gweler llawysgrifau Peniarth 125, 139, 176, Wrexham I, a Stowe 669. Tudur Penllyn ab Ieuan ab Iorwerth Foel ydoedd, ond yn un llawysgrif ceir Tudur Penllyn ap Dafydd ab Ieuan ab Iorwerth Foel; yr oedd yn olrhain ei linach i Feirion Goch, uchelwr o Edeirnion, sylfaenydd gwehelyth y Rhiw yn Llŷn, a chyndad i rai o deuluoedd enwog y cantref hwnnw. Ni wyddys pa le y ganed Tudur Penllyn na pha le y maged ef, ond nid yw'n annhebygol iddo dreulio'r rhan gyntaf o'i oes, fel y treuliodd y rhan olaf, yng nghantref Penllyn, y cantref a roes enw iddo. Wedi iddo dyfu'n rhydd, preswyliai yng Nghaergai, ym mhlwyf Llanuwchllyn, ac ymddengys y gwnâi hynny yn hawl ei wraig, Gwerful ferch Ieuan Fychan ab Ieuan ap Hywel y Gadair ap Gruffydd ap Madog ap Rhirid Flaidd; gweler *Powys Fadog*, ii, 119; vi, 119, 129. Ymddengys fod Tudur Penllyn yn porthmona, yn cadw preiddiau defaid ac yn ac yn gwerthu gwŵân, yn ogystal â barddoni, ond ni chadwai hynny mohono rhag dilyn arfer y beirdd o glera a theithio o Blas i Blas yn y Deau a'r Gogledd. Ei brif noddwyr oedd [Gruffydd Fychan](#) o Gors-y-gedol (canodd gywydd moliant i'r gwron hwn rhwng 1461 a 1468 pan oedd yn cynnal Castell Harlech gyda [Dafydd ab Ieuan ab Einion](#) yn erbyn plaid Edward IV); Rheinallt ap Gruffydd o'r Wyddgrug (canodd awdl i ddialedd yr uchelwr hwn ar wŷr Caer pryd y lladdwyd Robert Byrne, maer Caer; bu farw Rheinallt naill ai yn 1465 neu yn 1466); a Dafydd Siencyn o Nanconwy, un o ffyddloniaid [Siasbar Tudur a Harri](#) o Ritsmwnd, a gŵr enwog am ei gyrchoedd ar y Saeson. Fel y gellid disgwyl, pleidiai Tudur Penllyn yr uchelwyr a safai dros eu hawliau mewn cyfnod o elyniaeth ffyrnig rhwng Cymro a Sais. Rhagora ar ganu moliant gwŷr a gwragedd, er bod min ar ei ddychan hefyd, ac y mae camp ar ei ddisgrifiadau. Yr oedd ei fab, [IEUAN AP TUDUR PENLLYN](#), yntau'n fardd.

Awdur

Yr Athro John Ellis Caerwyn Williams, (1912 - 1999)

Ffynonellau

Thomas Roberts, '[Tudur Penllyn](#),' rhan I, *Y Llenor: cylchgrawn chwarterol dan nawdd cymdeithasau Cymraeg y colegau cenedlaethol*, xxi, 141-51

Thomas Roberts, '[Tudur Penllyn](#),' rhan II, *Y Llenor: cylchgrawn chwarterol dan nawdd cymdeithasau Cymraeg y colegau cenedlaethol*, xxii, 27-35

Jones a Lewis, *Mynegai i Farddoniaeth y Llawysgrifau* (1928), 382-8

Abraham Jenkins, 'The Works of Tudur Penllyn and Ieuan Brydydd Hir yr Hynaf' (thesis M.A. Prifysgol Cymru, 1921)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q7851356](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

